**Pwyllgor Rhanbarth Y Gogledd**

**Adroddiad I Gynulliad Cenedlaethol Cymru 2006-2007**

**Cyflwyniad**

1. Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd yw un o bum Pwyllgor Rhanbarth y Cynulliad a sefydlwyd o dan adran 61 Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheol Sefydlog 10. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys Alun a Glannau Dyfrdwy, Caernarfon, Clwyd, Conwy, Delyn, Wrecsam ac Ynys Môn.

2. Yn ôl Rheol Sefydlog 10.2

> "Rhaid i'r Pwyllgorau Rhanbarth gynghori'r Cynulliad ynglŷn â materion sy'n effeithio ar eu rhanbarthau, effaith polisïau'r Cynulliad yn y rhanbarthau hynny a gwaith cyrff cyhoeddus yno. Rhaid i bob Pwyllgor gyfarfod yn ei ranbarth o leiaf ddwywaith bob blwyddyn."

3. Mae gan y Pwyllgor 13 o Aelodau:

| | | |
|---|---|---|
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru | Y Democratiaid Rhyddfrydol |
| Mark Isherwood | Gogledd Cymru | Ceidwadwyr |
| Alun Ffred Jones | Caernarfon | Plaid Cymru |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd | Llafur |
| Denise Idris Jones | Conwy | Llafur |
| Ieuan Wyn Jones | Ynys Môn | Plaid Cymru |
| John Marek | Wrecsam | Cymru Ymlaen |
| Sandy Mewies | Delyn | Llafur |
| Alun Pugh | Gorllewin Clwyd | Llafur |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru | Plaid Cymru |
| Carl Sergeant | Alun a Glannau Dyfrdwy | Llafur |
| Karen Sinclair | De Clwyd | Llafur |
| Brynle Williams | Gogledd Cymru | Ceidwadwyr |

4. Etholwyd Brynle Williams yn Gadeirydd o fis Mai 2006.

**Cyfarfodydd**

5. Cyfarfu’r Pwyllgor chwe gwaith rhwng Mai 2006 a Mawrth 2007. Gweler y manylion yn Atodiad 1.

**Dull o weithio**

6. Rôl y pwyllgorau rhanbarth, fel y'i diffinnir yn Rheol Sefydlog 10.2, yw rhoi gwybod i'r Cynulliad Cenedlaethol am faterion sy'n effeithio ar eu rhanbarthau, effaith polisïau'r Cynulliad arnynt a gwaith y cyrff cyhoeddus yn y rhanbarthau hynny.

7. Yn gyffredinol, canolbwyntiodd y Pwyllgor ar drefnu cyfarfodydd ar thema arbennig gyda phwyslais cryf ar y cyhoedd yn cymryd rhan drwy'r cyfarfod cyfan. Ar ôl pob cyfarfod, cynhyrchwyd adroddiad gan y Pwyllgor yn crynhoi'r sylwadau a fynegwyd gan bobl y Gogledd a chyflwynwyd y rhain i'r Gweinidog priodol i roi sylwadau arnynt.

**Lleoliadau’r cyfarfodydd**

8. Mae'r Pwyllgor wedi parhau'n ymrwymedig i ddull cynhwysol o weithio. Cynhaliodd y Pwyllgor gyfarfodydd yn Llandudno, Llaneurgain, Amlwch, Cei Connah, Llangollen a Chaernarfon.

**Y Materion dan Sylw**

9. Mae'r Pwyllgor wedi mynd i'r afael â gwahanol faterion sy'n ymwneud â phob agwedd ar gyfrifoldebau'r Cynulliad.

**Darpariaeth Gwasanaeth Tân yng Ngogledd Cymru**

10. Trafododd y Pwyllgor y ddarpariaeth Gwasanaeth Tân yng Ngogledd Cymru yn ei gyfarfod ar 19$^{eg}$ Mai. Rhoddodd y cyfarfod gyfle i sefydliadau lleol preifat a chyhoeddus, myfyrwyr ac aelodau’r cyhoedd i leisio eu barn wrth y Pwyllgor, a throsglwyddwyd y safbwyntiau hefyd i’r Gweinidog Cyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus Sue Essex AC.

**Atal Troseddau ac Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol**

11. Ym mis Gorffennaf, trafododd y Pwyllgor Atal Troseddau ac Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol. Clywodd y Pwyllgor oddi wrth Heddlu Gogledd Cymru a sefydliadau gwirfoddol lleol. Cafodd y safbwyntiau a gyflwynwyd eu trosglwyddo i’r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, Edwina Hart AC.

**Ynni Adnewyddadwy a Defnyddio Ynni'n Effeithlon**

12. Trafododd y Pwyllgor Ynni Adnewyddadwy a Defnyddio Ynni'n Effeithlon yn ei gyfarfod mis Hydref. Rhoddwyd cyflwyniadau gan Gyngor Sir Gwynedd a darparwyr ynni lleol. Cafodd y farn a gyflwynwyd yn y cyfarfod ei throsglwyddo i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau, Andrew Davies AC a'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad Carwyn Jones AC.

**Digartrefedd Ymhlith Pobl Ifanc**

13. Trafododd y Pwyllgor Ddigartrefedd Ymhlith Pobl ifanc yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd. Clywodd y Pwyllgor gyflwyniadau gan Gyngor Sir Ddinbych a sefydliadau eraill yng Ngogledd Cymru sy'n delio gyda'r mater hwn. Cafodd y safbwyntiau a fynegwyd gan yr aelodau, y cyflwynwyr a'r cyhoedd eu cyfleu wrth y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, Edwina Hart AC a Chadeirydd y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, Janice Gregory AC.

**Twristiaeth**

13. Yn ei gyfarfod ym mis Chwefror, bu'r Pwyllgor yn trafod Twristiaeth. Daeth cynrychiolwyr o gwmnïau a sefydliadau sy'n delio gyda Thwristiaeth yng Ngogledd Cymru i roi eu barn yn y cyfarfod. Cafodd y farn a fynegwyd ei throsglwyddo i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau, Andrew Davies AC.

**Iechyd Meddwl**

14. Yn ei gyfarfod ym mis Mawrth, edrychodd y Pwyllgor ar Iechyd Meddwl. Cafwyd amrywiaeth eang o safbwyntiau, gan y cyflwynwyr a'r cyhoedd, a throsglwyddwyd y cyfan i'r Gweinidog dros Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Dr Brian Gibbons AC.

**Casgliad**

15. Rhoddodd Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd gyfle i aelodau'r Cynulliad ymgysylltu'n ffurfiol mewn dialog gyda ac i gyfleu barn pobl y rhanbarth a wnaethpwyd yn llwyddiannus yn ystod y cyfnod dan sylw.

**Brynle Williams**

**Cadeirydd y Pwyllgor**

ATODIAD 1

# PWYLLGOR RHANBARTH Y GOGLEDD

## AMSERLEN Y CYFARFODYDD

## Mai 2006 hyd Fawrth 2007

| Dyddiad | Lleoliad | Agenda |
|---|---|---|
| 19 Mai 2006 | Canolfan Gymuned Craig-y-Don, Llandudno | Darpariaeth Gwasanaeth Tân yng Ngogledd Cymru<br>• Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru<br>• Undeb y Frigâd Dân<br>• Cyngor sir Ddinbych<br>• Age Concern Canol Gogledd Cymru |
| 7 Gorffennaf 2006 | Coleg Garddwriaeth Cymru, Ffordd Treffynnon, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint | Atal Troseddu ac Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol<br>• Heddlu Gogledd Cymru<br>• Cymdeithas Gwarchod Cymdogaeth Sir y Fflint<br>• Cyswllt yr Henoed Cymru<br>• NACRO |
| 6 Hydref 2006 | Neuadd Goffa Amlwch, Stryd y Farchnad, Amlwch, Ynys Môn, LL68 9ET | Ynni Adnewyddadwy a Defnyddio Ynni'n Effeithlon<br>• Canolfan Gynghori ar Ddefnyddio Ynni'n Effeithlon Gogledd Cymru (EEAC)<br>• Ymddiriedolaeth Carbon Cymru<br>• Cyngor Sir Gwynedd<br>• Prifysgol Cymru, Bangor |
| 17 Tachwedd 2006 | Y Neuadd Ddinesig, Cyngor Tref Cei Connah, Swyddfeydd y Cyngor Tref, Greenacre 14 Wepre Drive, Cei Connah, Sir y Fflint, CH5 4HB | Digartrefedd Ymhlith Pobl Ifanc<br>• Cyngor Sir Ddinbych<br>• Wrexham Foyer (Cymdeithas Tai Clwyd Alun)<br>• Shelter Cymru<br>• Cymdeithas Tai Hafan |
| 9 Chwefror 2007 | Y Pafiliwn Rhyngwladol Brenhinol, Ffordd yr Abaty, Llangollen, LL20 8SW | Twristiaeth<br>• Yr Adran Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau<br>• Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru<br>• Cymdeithas Lletygarwch Prydain<br>• Y Clwb Carafannwyr |
| 23 Mawrth 2007 | Stiwdio Barcud Derwen, Stad Ddiwydiannol Cibyn, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2BD | Iechyd Meddwl<br>• Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Sir Gwynedd<br>• Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru<br>• Adran Meddygaeth Seicolegol, Uned Hergest, Ysbyty Gwynedd<br>• MIND Aberconwy |